*Health and Social Services Group*
*Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byrddau Iechyd Lleol- **Prif Weithredwyr**
**Prif Swyddogion Gweithredol**
**Cyfarwyddwyr Cynllunio**

Awdurdodau Lleol – **Prif Weithredwyr**
**Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – **Cadeiryddion**

21 Mai 2020

Annwyl Gydweithwyr

**Adroddiad Cenedlaethol: Right-sizing Community Services for Discharge**

Yn Hydref 2018, cyhoeddodd Uned Gyflawni GIG Cymru y ddogfen 'Why not home? Every Day Counts' yn dilyn yr adolygiad cenedlaethol o arferion rhyddhau cymhleth yng Nghymru. Nododd gyfleoedd sylweddol i wella profiad y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu drwy leihau niwed, gwella canlyniadau i gleifion a hwyluso llif drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Un o'r themâu allweddol a nodwyd yn yr adroddiad fel un a fyddai'n elwa ar ddull gweithredu cenedlaethol oedd teilwra gwasanaethau cymunedol er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion yn amserol (gan gynnwys gweithredu'r pedwar llwybr 'Rhyddhau i Adfer ac Asesu').

Datblygwyd prosiect a grŵp cenedlaethol i ymateb i'r thema deilwra hon, mewn ffordd systematig, gan ddefnyddio'r model a ddatblygwyd gan yr Athro John Bolton. Nod y prosiect oedd cefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i asesu:

- Sut yr oedd nifer y cleifion / pobl y mae arnynt angen cymorth yn eu rhanbarth yn cymharu â'r model;
- Yr amrywiant posibl rhwng y trefniadau comisiynu presennol a'r galw presennol / yn y dyfodol pe bai egwyddorion y model yn cael eu gweithredu drwy Lwybrau Cymru ar gyfer Rhyddhau i Adfer ac Asesu 2, 3 a 4; ac
- A yw'r gwasanaethau sydd ganddynt ar hyn o bryd yn cefnogi'r cleifion / cwsmeriaid hyn ac yn cyflawni canlyniadau da.

Mae'r adroddiad cenedlaethol *Right Sizing Community Services to Support Discharge from Hospital* yn manteisio ar ganfyddiadau trosfwaol y gwaith a gwblhawyd gyda phartneriaid yn 2019/20 ac yn gwneud nifer o argymhellion allweddol ar gyfer y system.

Cytunwyd y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn awr, gan fod y canfyddiadau a'r argymhellion ynddo yn berthnasol i'r ymateb presennol i'r pandemig COVID-19. Rydym wedi cyflymu Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu'r drwy *Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 (Cymru).* Bydd y model hwn a chanfyddiadau'r adroddiad hefyd yn cefnogi'r broses adfer yn sgil COVID-19 a gwella systemau i liniaru 'niwed' cydnabyddedig arall at y dyfodol.

Mae'r cyllid ychwanegol o £10miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu *Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 (Cymru)* yn cynnig cyfle pellach i weithredu'r argymhellion ar gyfer pobl Cymru. Anogir partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddefnyddio'r adroddiad amgaeedig i lywio penderfyniadau a chamau gweithredu sy'n ymwneud â'r buddsoddiad hwnnw.

Bydd Llywodraeth Cymru ac Uned gyflawni GIG Cymru yn parhau i weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid eraill i'w cefnogi wrth eu gweithredu ac i rannu'r hyn a ddysgir.

Yn gywir,

**Dr Andrew Goodall CBE**

**Albert Heaney**

Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol